Estyn



# Adroddiad crynodeb i rieni a gofalwyr ar Ysgol Gynradd Penygloddfa

## Dyddiad yr arolygiad: Tachwedd 2024

gan Estyn, Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

# Crynodeb

Mae gan arweinwyr weledigaeth glir a chytun ar gyfer gwella'r ysgol. Maent yn gweithio'n effeithiol gyda staff a llywodraethwyr i roi lles a hapusrwydd disgyblion yn ganolog i'w gwaith. Dros gyfnod, maent wedi datblygu cwricwlwm eang ac ysgogol sy'n canolbwyntio ar ddiwylliant a threftadaeth Cymru.

Mae staff yn darparu amgylchedd anogol lle mae bron pob un o'r disgyblion yn teimlo'n ddiogel a bod staff yn gwrando arnynt. Maent yn ffurfio perthnasoedd cynnes ac ymddiriedus â disgyblion ac mae ganddynt ddisgwyliadau uchel ar gyfer eu hymddygiad.

Mae athrawon yn cynllunio'n effeithiol i sicrhau bod y rhan fwyaf o ddisgyblion, gan gynnwys y rhai ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY) a'r rhai o aelwydydd incwm isel, yn gwneud cynnydd da yn eu dysgu. Mae'r ysgol yn cefnogi disgyblion yn dda i ddatblygu fel cerddorion, ac o ganlyniad, mae llawer o ddisgyblion yn mwynhau cyfleoedd i ymarfer a mireinio eu medrau cerddorol.

Mae darpariaeth yr ysgol ar gyfer disgyblion ag ADY yn gryfder. Mae staff yn ystyried anghenion disgyblion yn ofalus ac yn gwneud unrhyw newidiadau angenrheidiol i ystafelloedd dosbarth ac ardaloedd dysgu i sicrhau bod anghenion pob un o'r disgyblion yn cael eu diwallu.

Mae'r ysgol wedi ymgorffori ymagwedd lwyddiannus at addysgu a dysgu'r Gymraeg. O ganlyniad, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd eithriadol o dda yn datblygu eu medrau llafaredd Cymraeg.

Mae athrawon yn defnyddio adborth yn effeithiol i gynorthwyo disgyblion i wella'u gwaith yn ystod gwersi. Maent yn darparu ystod eang o gyfleoedd i ddisgyblion gymhwyso'r medrau maent yn eu caffael i'w gwaith ar draws y cwricwlwm. Fodd bynnag, nid ydynt yn cefnogi disgyblion yn briodol i gymhwyso'u medrau ar lefel ddigon uchel neu ddatblygu i fod yn ddysgwyr annibynnol effeithiol.

# Argymhellion a beth sy'n digwydd nesaf

**Rydym wedi gwneud un argymhelliad i helpu'r ysgol i barhau i wella, sef:**

**A1 Sicrhau bod athrawon yn darparu cyfleoedd pwrpasol i ddisgyblion iau ddatblygu eu medrau dysgu'n annibynnol ac i ddisgyblion hŷn gymhwyso'u medrau llythrennedd a rhifedd ar lefel briodol heriol**

**Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r argymhelliad o'r arolygiad.**

**Os hoffech ddarllen mwy am werthusiad Estyn o'r ysgol, dilynwch y ddolen hon i'r adroddiad llawn.**




Ⓗ Hawlfraint y Goron 2025: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 16/01/2025

Sylwer, efallai na fydd y ffotograffau sy'n cael eu dangos yn rhai o'r ysgol sy'n destun yr adroddiad hwn.